## Pam gaiff Aelodau hawlio ar gyfer llety dros nos?

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chydraddoldeb. Ein nod yw lleihau'r rhwystrau fel bod y Senedd yn adlewyrchu cymdeithas, lle y gall unrhyw un, ni waeth beth yw ei gefndir neu ei amgylchiadau, ystyried dod yn Aelod o'r Senedd.

Mae ar Aelodau sy'n byw'n rhy bell o Gaerdydd i deithio yno ac yn ôl mewn diwrnod angen rhywle i aros wrth weithio yn y Senedd, a all barhau'n hwyr yn y nos yn aml. Felly, darperir cyllideb i Aelodau ar gyfer llety dros nos sy'n sicrhau nad yw lle y maent yn byw neu gyllid personol yn atal pobl rhag gwasanaethu fel Aelod.

Nid mantais neu foeth yw'r cymorth hwn; mae'n fesur ymarferol i sicrhau y gall Aelodau o gymunedau ym mhob cwr o Gymru gymryd rhan ym musnes y Senedd, gan sicrhau y caiff pawb ei drin yn fwy cyfartal ac na fydd ar ei golled wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

**Caiff y rhan fwyaf o gyflogeion yn y sector preifat a'r sector** cyhoeddus hawlio ar gyfer costau teithio a llety dros nos wrth weithio oddi cartref

Caiff Aelodau sy'n byw ymhellach i ffwrdd o Gaerdydd (sef yr ardal allanol) hawlio ar gyfer costau rhent (hyd at derfyn a bennir gan y Bwrdd) a chostau cysylltiedig megis y dreth gyngor. Mae gan Aelodau sy'n byw'n agosach at Gaerdydd gyllideb lai ar gyfer arosiadau dros nos achlysurol pan fyddant yn gweithio'n hwyr neu ar fusnes brys.

Nid yw'r cyllidebau llety y caiff Aelodau fynediad atynt yn rhan o'u cyflog ac ni chaiff Aelodau hawlio ar gyfer costau morgais yn y Senedd nesaf. Caiff Aelodau hawlio dim ond y costau y maent yn eu hysgwyddo wrth wneud eu gwaith, felly efallai na fyddant yn defnyddio eu holl gyllideb. Mae rhaid darparu derbynebau a thystiolaeth, mae hawliadau'n cael eu gwirio gan Gomisiwn y Senedd, a chaiff yr holl hawliadau eu cyhoeddi ar-lein.

Mae cymorth llety ychwanegol ar gael i Aelodau anabl neu i Aelodau sydd â chyfrifoldebau gofalu, y gall fod arnynt angen lle ychwanegol i'r rhai y mae angen iddynt aros gyda hwy tra byddant yng Nghaerdydd.

Caiff manylion hawliadau llety dros nos a ad-dalwyd i'r Aelodau eu cyhoeddi ar-lein ar https://lwfansau.senedd.cymru/